# ROBERTS, DAVID FRANCIS (1882 - 1945), gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur

**Enw:** David Francis Roberts
**Dyddiad geni:** 1882
**Dyddiad marw:** 1945
**Priod:** Sarah Ann Roberts (née Davies)
**Rhiant:** Ellen Roberts
**Rhiant:** Robert Roberts
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** John Ellis Meredith

Ganwyd 15 Tachwedd 1882 yn 3 Libanus Terrace, Bontnewydd, yn fab i Robert ac Ellen Roberts. O'r ysgol elfennol aeth i ysgol sir Caernarfon, coleg y Brifysgol, Bangor (1901-1904), coleg y Bala, ac am flwyddyn i Brifysgolion Berlin a Marburg. O 1908-1912 bu'n ddarlithydd cynorthwyol mewn Hebraeg ym Mhrifysgol Glasgow. Ordeinwyd ef yn 1912, a bugeiliodd eglwysi Maenofferen, Blaenau Ffestiniog 1912-1921, Fitzclarence Street, Lerpwl 1912-1929, capel Tegid a'r capel Saesneg, Bala, a Llanfor 1929-1945. Priododd 18 Awst 1921 Sarah Ann Davies merch hynaf G. G. Davies, Glan-y-pwll Villa, Blaenau Ffestiniog. Cyfrannodd yn helaeth i lenyddiaeth Feiblaidd : sgrifennodd werslyfrau, llyfr ar *Hanes yr Hebreaid* esboniad ar *Hagai a Sechariä*, ac ysgrifau lawer i gylchgronau ei enwad. Bu ganddo hefyd erthyglau yn yr *International Bible Standard Encyclopaedia*. Ef oedd is-olygydd y *Geiriadur Beiblaidd* a gyhoeddwyd yn 1926, a golygydd cyffredinol y *Geiriadur Diwinyddol* y dechreuwyd ei baratoi dan nawdd Prifysgol Cymru, gwaith a ataliwyd gan yr ail Ryfel Mawr. Bu'n un o olygyddion y *Traethodydd* o 1929-1945, yn ysgrifennydd ac yn llywydd adran ddiwinyddol Urdd y Graddedigion, a gwnaeth lawer o waith yngl n â'r cyfieithiadau newydd o'r *Beibl* a gyhoeddir dan nawdd y Brifysgol. Gwasanaethodd fel ysgrifennydd pwyllgor Ysgol Sul y Gymanfa Gyffredinol o 1932-1937, ysgrifennydd Cymdeithasfa'r Gogledd o 1936-1938 ac wedyn am 1940, ac fel llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd am 1941. Yn ddiweddarach penodwyd ef yn ysgrifennydd dros y gogledd i Gomisiwn Ad-drefnu ei enwad.

Yr oedd yn r o argyhoeddiadau cryfion, yn ddiddichell a mawrfrydig ei ysbryd, yn gydwybodol a thrylwyr yn ei holl waith. Bu farw yn y Bala 9 Medi 1945, yn 62 oed, a chladdwyd ef yn Nghaeathro.

## Awdur

**Y Parchedig John Ellis Meredith**, (1905 - 1981)

## Ffynonellau


*Y Drysorfa*, 1941, 99

*Y Goleuad*, 19 Medi, 1945

*Y Seren*, 22 Medi, 1945

*Blwyddiadur y Methodistiaid Calfinaidd*, 1946, 176

Nodiadau gan ei ferch, Miss Rhiannon Francis Roberts

adnabyddiaeth bersonol


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 101485701

Wikidata: Q20738033


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Rhannu